



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 19 Medi 2018 am 5.00 pm ym The Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cyngor Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd S Powderhill (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Tegg	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd H Boggis	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Calvert	Y Cyngorydd C Willis
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd D Williams	Y Cyngorydd G Davies
Y Cyngorydd S Pickering	Y Cyngorydd L De Vet
Y Cyngorydd S Rees	Y Cyngorydd J Elliott
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd S. Rees-Owen
Y Cyngorydd M Forey	Y Cyngorydd A Fox
Y Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd E Webster
Y Cyngorydd M Griffiths	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd M Weaver	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd L Walker	Y Cyngorydd G Hopkins
Councillor K Morgan	Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd J James	Y Cyngorydd P Jarman
Y Cyngorydd G Thomas	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd M Adams	Y Cyngorydd J Rosser
Y Cyngorydd R Smith	Y Cyngorydd G Stacey
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd S Powell
Y Cyngorydd Owen-Jones	Y Cyngorydd W Owen
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd S Belzak
Y Cyngorydd D Macey	Y Cyngorydd E Stephens
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd G Hughes
Y Cyngorydd L Jones	Y Cyngorydd L Hooper
Y Cyngorydd J Harries	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd E George	Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd M Fidler-Jones	Y Cyngorydd M Diamond
Y Cyngorydd J Williams	Y Cyngorydd G Williams
Councillor J Davies	Y Cyngorydd J Cullwick
Y Cyngorydd A Cox	Y Cyngorydd A Chapman
Y Cyngorydd G Caple	

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Mr C Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr

Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol

46 YMDDIHEURIADAU

Daeth ymddiheuriadau am golli'r cyfarfod oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S.M.Evans, P.Howe, R.K.Turner ac M.Webber.

47 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

48 CYHOEDDIADAU

1. Dywedodd y Maer wrth yr aelodau ei fod e wedi derbyn e-ddeiseb gan drigolion lleol yn galw am osod parc dŵr ym Mharc Pontypridd (Parc Coffa Ynysangharad).
2. Talodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, E Stephens, deyrnged i waith y crefftwr lleol Chris Williams, a wnaeth greu Cadair Eisteddfod Caerdydd 2018. Rhoddodd ganmoliaeth i'w waith a soniodd hi fod hyn yn fraint i Mr Williams ac i'r Fwrdeistref Sirol. Cafodd ei gadarnhau y byddai Mr Williams yn cael ei wahodd i Barlwr y Maer er mwyn cydnabod ei waith a'i lwyddiant yn swyddogol. Yn ogystal â hynny, manteisiodd y Cynghorydd Stephens ar y cyfle i roi gwybod i'r aelodau am y nifer fawr o ddoniau a gafodd eu harddangos yn yr Eisteddfod, a gafodd ei chynnal ym Mae Caerdydd ym mis Awst eleni.
3. Cyflwynodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, G Davies, ddeiseb i'r Maer ar ran trigolion lleol. Roedden nhw'n awyddus i fynegi eu pryder ynglŷn â'r ffaith fod dim swyddog croesi'r ffordd ar gael i helpu disgyblion Ysgol Gymuned Pen-yr-Englyn, Baglan, Treherbert.
4. Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, H Boggis, at lwyddiant y 'Penywaun Paraders', sef grŵp cerddoriaeth jazz o'i ward hi. Buon nhw'n cystadlu ym mhencampwriaethau'r byd dros ŵyl y banc ym mis Awst. Daeth rhai unigolion i'r brig, a chafodd y grŵp ei enwi yn Bencampwr y Byd. Cafodd ei nodi y byddai'r grŵp yn cael ei wahodd i Barlwr y Maer er mwyn nodi ei lwyddiant.
5. Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, G Jones, wrth yr aelodau fod Côr Cwmdare Voices wedi cael ei wahodd i ganu yn Stadiwm Principality ar gyfer y gêm rygbi rhwng Cymru a De Affrica ar 24/11/18. Manteisiodd ar y cyfle i ddymuno'n dda i'r côr ar gyfer yr achlysur.
6. Dywedodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, T Williams, wrth yr aelodau ei bod hi'n cynnal Sioe Ffasiwn yn ystod mis Hydref. Bydd yr elw yn mynd i helpu bachgen o'i ward hi o'r enw Toby, sydd â phroblemau gyda'i galon. Yn ogystal â hynny, cafodd yr aelodau wybod am raffl a fyddai'n cael ei gynnal, rhag ofn eu bod nhw'n dymuno cymryd rhan.
7. Cyfeiriodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, D Owen-Jones, at ddoniau

cerddorol Miss Ella Thomas, a oedd yn gystadleuydd llwyddiannus ar y rhaglen 'The Voice Kids'. Cafodd yr aelodau wybod am achlysur diweddar i godi arian ar gyfer 'diffibrilwyr yn y gymuned', lle bu Ella'n perfformio, a'i bod hi am ymddangos ar raglen ar S4C cyn bo hir. Yn ogystal â hynny, soniodd y Cynghorydd Owen-Jones am y gwaith cadarnhaol a gafodd ei gyflawni gan drigolion yn ward Tonyrefail a'r Gilfach-goch mewn perthynas â chodi arian ar gyfer ymgyrch 'Diffibrilwyr yn y Gymuned - Tonyrefail a'r Gilfach-goch'. Bellach, mae mwy na 28 o ddiffibrilwyr ar gael yn y gymuned. Cafodd ei nodi y byddai'r grŵp codi arian yn cael ei wahodd i Barlwr y Maer er mwyn llongyfarch yr aelodau ar eu llwyddiant hyd yma.

49 COFNODION

PENDERFYNODD y Cyngor gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2018 yn gofnodion cywir yn dilyn y newid canlynol:

- Bod Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees-Owen wedi'i nodi'n bresennol.

50 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

1. Cwestiwn gan y Cynghorydd Richard Yeo i Arweinydd y Cyngor - y Cynghorydd A. Morgan

"Pa fath o faterion y mae'r Cyngor yn eu trafod gyda Llywodraeth Cymru o ran cynllunio trafndiaeth ar gyfer y dyfodol?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

Eglurodd yr Arweinydd wrth yr aelodau bod materion cynllunio trafndiaeth ar gyfer y dyfodol yn Rhondda Cynon Taf, ac ar gyfer deg Awdurdod lleol arall, yn cael eu crybwyll gyda Llywodraeth Cymru a'r Gweinidog, a hynny yn sgil ei swyddogaeth fel llefarydd trafndiaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac is-gadeirydd consortiwm trafndiaeth y Fargen Ddinesig. Aeth yr Arweinydd ymlaen i sôn am y trafodaethau ynglŷn â'r Metro, sy'n gwneud cynnydd da, a'r cynllun trafndiaeth cenedlaethol. Ychwanegodd e fod hyn y mynd ymhellach na'r fwrdeistref sirol, ac yn edrych ar ddull gweithredu sy'n fwy cysylltiedig ag awdurdodau lleol cyfagos eraill. Eglurodd yr Arweinydd bod swyddogion yr awdurdod mewn safleoedd amlwg ac arweiniol mewn perthynas â'r Fargen Ddinesig, a bod gwaith ar y cyd yn cael ei ddatblygu er mwyn meithrin cydberthnasau agos â Llywodraeth Cymru wrth drefnu trafndiaeth.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R.Yeo:

"Rydyn ni'n rhagweld y caiff Metro De Cymru ei roi ar waith dros y blynyddoedd nesaf. A oes modd i chi amlinellu pa fanteision y mae modd i drigolion y Beddau a Thy'n-y-Nant eu disgwyl gan y gwelliant cyffrous yma i gysylltiadau cludiant cyhoeddus, y mae galw mawr amdano?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan:

Gwnaeth Arweinydd y Cyngor sylw am yr agwedd ehangach ar y Metro, lle caiff trenau ychwanegol eu darparu bob awr, a soniodd am y rhan ddeheuol o'r ddarpariaeth lle bydd 12 o drenau yr awr yn teithio i'r ddau gyfeiriad, o bosibl, i'r de o Bontypridd. Ychwanegodd y byddai cysylltiadau o'r fath yn allweddol ar gyfer sicrhau swyddi a ffyniant i bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y ddarpariaeth yn y Beddau a Thy'n-y-Nant, gan nodi'r diffyg cysylltiadau cyfredol, a soniodd am y dull gweithredu fesul cam a gaiff ei roi ar waith yn y dyfodol a'r cysylltiadau â Chynllun Datblygu Lleol Gogledd Caerdydd. Yn ogystal â hynny, soniodd yr Aelod am yr astudiaeth a gynhaliodd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r A4119, y gwaith cysylltu bysiau sydd angen bwrw ymlaen ag ef a datblygu'r gwasanaeth Parcio a Theithio o Gyffordd 34 gan roi gorsaf ar y brif linell ar gyfer gwasanaethau lleol. Nododd y dyheadau ar gyfer rhan ddeheuol y Sir, mewn perthynas â'r ddarpariaeth o ran cludiant a'r pecyn mesurau sydd angen bwrw ymlaen â nhw er mwyn helpu i ateb y galw o ran trafnidiaeth yn y dyfodol.

2. Cwestiwn gan y Cynghorydd Mark Adams i Ddirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor - y Cynghorydd M. Webber:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ynglŷn â Siarter y Cynghorwyr?"

Nodwch: Dywedodd y Maer wrth yr aelodau y byddai'r cwestiwn yma'n cael ei ateb yn ysgrifenedig yn absenoldeb y Cynghorydd M Webber.

3. Cwestiwn gan y Cynghorydd Jayne Brencher i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai - y Cynghorydd R Bevan:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad am Adfywio Canol Trefi?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet sylwadau am waith caled y weinyddiaeth lafur a'r swyddogion er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn adfywio canol ei drefi mewn modd uchelgeisiol, tra'i fod hefyd yn arfer barn gadarn a defnyddio dadansoddiadau o'r farchnad i lywio ei benderfyniadau fel eu bod nhw'n gweithio ar gyfer y gymuned. Tynnodd e sylw'r Aelodau at y gwaith sydd wedi'i gyflawni ym Mhontypridd ar ddatblygiad safle Dyffryn Taf, sydd eisoes yn annog rhagor o fuddsoddiadau yn y rhanbarth.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i ychwanegu bod safle Dyffryn Taf wedi wynebu sawl methiant i'w adfywio dros y blynyddoedd, ond, yn dilyn ymyriad uniongyrchol gan y weinyddiaeth yma, yn ogystal ag arweinyddiaeth gref, mae'r safle eisoes wedi'i drawsnewid yn brosiect llwyddiannus. Mae un o'r adeiladau wedi'i osod yn llawn i denantiaid hirdymor ac mae buddsoddiad gan sefydliadau eraill, sy'n golygu y caiff

rhagor o arian ei fuddsoddi yn yr ardal.

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Brencher:

Manteisiodd y Cyngorydd Brencher ar y cyfle i wneud sylwadau cadarnhaol ynglŷn â phrosiect Dyffryn Taf, a gofynnodd a 'wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am y bont newydd a fydd yn cysylltu Dyffryn Taf â Pharc Coffa Ynysangharad?'

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai'r cais yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu cyn bo hir, gan nodi y byddai'r bont yn rhoi mynediad uniongyrchol i Barc Coffa Ynysangharad o safle Dyffryn Taf, ac yn gwneud y rhan honno o'r dref yn fwy hygyrch.

4. Cwestiwn gan y Cyngorydd Gareth Hughes i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai- y Cyngorydd R Bevan:

"Sut mae modd i'r Cyngor ychwanegu at y cymorth sylweddol sydd eisoes yn cael ei gynnig i Ganol Trefi?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Ymatebodd yr Aelod o'r Cabinet i'r cwestiwn drwy dynnu sylw at lansiad diweddar y cynllun "Hop, Shop, Save", mewn partneriaeth â Stagecoach a phartneriaid eraill mewn Canol Trefi. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet y byddai Stagecoach yn hysbysebu busnesau ar eu bysiau, ac, yn gyfnewid am hynny, y byddai'r busnesau yma'n rhoi gostyngiad ar bris eu nwyddau a/neu'u gwasanaethau i gwsmeriaid stagecoach sy'n dangos tocyn bws dilys. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y cynllun yma yn cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â phob tref, yn gwella'r arlwy i gwsmeriaid, yn helpu busnesau i wneud rhagor o elw ac yn rhoi hwb i'r economi leol.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes:

Oes modd i chi roi manylion i ni ynglŷn â'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i gefnogi adfywiad Tonypandy unwaith y mae'r gwaith priffyrdd wedi'i gwblhau yng nghanol y dref?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Bevan:

Ymatebodd yr Aelod o'r Cabinet drwy ddweud y byddai gwaith monitro'n cael ei wneud ac y byddai nifer yr ymwelwyr â busnesau yn y dref yn cael eu cyfrifo ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Nod hyn fydd mesur llwyddiant y prosiect a ph'un a yw e wedi helpu i gynyddu nifer y bobl yng nghanol y dref. Yn ogystal â hynny, ychwanegodd e y byddai'r Cyngor yn ystyried gweithio gyda busnesau a landlordiaid i droi'r lloriau uwch ben y siopau yn gartrefi. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant ym Mhontypridd, gan alluogi pobl i fyw yng nghanol y dref ac yn agos at rwydweithiau trafndiaeth gyhoeddus a chyfleusterau. Rydyn ni'n gobeithio efelychu'r patrwm yma mewn ardaloedd eraill. Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor wedi derbyn mwy na 100 o fynegiadau o ddiddordeb mewn perthynas â'r

cynllun prosiect grantiau canol tref. Hyd yma, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo 50 o brosiectau.

I gloi ei ymateb, soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y gwaith o roi Metro De Cymru ar waith, a nododd sut y mae modd manteisio ar hyn yn Nhonypany ac yng Nghwm Rhondda er mwyn denu buddsoddiadau a chreu rhagor o swyddi i ymestyn cyfoeth ledled y rhanbarth.

5. Cwestiwn gan y Cyngorydd Joshua Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Threftadaeth - y Cyngorydd A Crimmings:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet ddatganiad ar broblemau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol mewn Ysgolion yn Rhondda Cynon Taf?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor yn gweithredu un o'r polisiâu trafndiaeth ysgol mwyaf hael yng Nghymru. Mae e'n gwasanaethu tua 12,500 o ddysgwyr bob dydd ac yn costio mwy na £10.2 miliwn y flwyddyn. Ychwanegodd hi fod polisi'r Cyngor yn rhagori ar ddarpariaeth statudol Llywodraeth Cymru, a bod y Cyngor yn darparu trafndiaeth ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw mwy na 1.5 milltir (yn hytrach na 2 filltir) i ffwrdd o'u hysgol agosaf neu ysgol dalgylch, ac yn darparu trafndiaeth ar gyfer disgyblion uwchradd sy'n byw mwy na 2 filltir (yn hytrach na 3 milltir) i ffwrdd o'u hysgol uwchradd. Nododd hi fod hyn yn cymharu'n addawol ag Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru.

Nododd yr Aelod o'r Cabinet fod modd i broblemau godi gyda pholisi a darpariaeth mor hael o ran trafndiaeth. Roedd y rhain yn ymwneud ag amserlenni ysgolion, parcio a gwaith ffordd dirybudd. Rhoddodd hi sicrwydd i'r Aelodau bod y Cyngor yn gweithio gyda'r heddlu, ysgolion a'r garfan orfodi er mwyn mynd i'r afael â'r problemau sydd wedi'u nodi, ac y byddwn ni'n parhau i wneud hynny er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei gynnal mewn modd proffesiynol.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Davies:

Oes modd i chi roi gwybod i ni a yw'r Cyngor yn sicrhau bod gan ddarparwr ddigon o gerbydau ar gael er mwyn casglu a gollwng disgyblion, yn unol â'r contract, pan gaiff contractau trafndiaeth ysgol eu dyfarnu?

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:

Cadarnhaodd yr Aelod o'r Cabinet fod y Cyngor yn dilyn proses gaffael drylwyr, a chaiff trefn sgorio ei defnyddio ar gyfer pob contract a gaiff ei ddyfarnu. Rhoddodd yr Aelod wybodaeth am y broses archwilio a gaiff ei chynnal hefyd, gan nodi ei bod hi'n craffu'n fanwl ar gontractwyr. Aeth hi ymlaen i nodi bod Côt Ymddygiad y Cyngor hefyd yn amlinellu'r paramedrau sydd angen eu dilyn, a bod y Cyngor yn cosbi contractwyr am ddiffyg cydymffurfiaeth. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y swyddog

sy'n ymwneud â thrafnidiaeth ysgol a'r gwaith a gaiff ei gyflawni gydag ysgolion a chontractwyr er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddibynadwy ac yn addas at y diben. Gorffennodd yr Aelod o'r Cabinet ei hymateb drwy ddweud bod modd i'r Cyngor ddod â chontract i ben os bydd angen gwneud hynny.

ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ALLANOL

51 ADRODDIAD ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL – CRONFA BENSIWN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF.

Rhoddodd Mr R Harris, Prif Swyddog Swyddfa Archwilio Cymru, gyflwyniad PowerPoint i'r Aelodau ynglŷn â'r Archwiliad o ddatganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2017-18 a Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf.

Nododd Mr Harris fod y broses archwilio cyfrifon wedi gweithio'n dda, a bod y Cyngor wedi cwblhau'r archwiliadau fis cyn y terfyn amser statudol, heb beryglu ansawdd y datganiadau ariannol a gafodd eu llunio. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa y byddai'r Prif Archwilydd yn rhoi ei farn a chyflwyno'r dystysgrif unwaith i'r datganiadau ariannol yma gael eu llofnodi.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y gwaith a gafodd ei gynnal o ran cwblhau'r datganiadau ariannol a bodloni'r terfynau amser. Byddai hyn o gymorth mewn perthynas â therfynau amser gofynnol yn y dyfodol.

CYTUNWYD y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

52 ARCHWILIAD GWELLA BLYNYDDOL

Cyflwynodd Ms J Morgan, Swyddfa Archwilio Cymru, yr Adroddiad Archwiliad Gwella Blynyddol 2017-18 ar gyfer Cyngor Rhondda Cynon Taf i'r Aelodau. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Prif Archwilydd gynnal asesiad gwella blynyddol sy'n edrych i'r dyfodol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Cadarnhaodd Mr Morgan fod y Cyngor yn diwallu ei ofynion statudol mewn perthynas â gwelliant parhaus.

Yn dilyn trafodaeth lle cafodd nifer o gwestiynau eu hateb gan Ms Morgan a'r Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol ynglŷn â chraffu yn yr Awdurdod, **CYTUNWYD** y byddai'r Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

RHAGLEN WAITH Y CYNGOR

53 RHAGLEN WAITH Y CYNGOR

Rhoddodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol y newyddion diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â Rhaglen Waith y Cyngor. Cafodd yr Aelodau eu cynghori y byddai Dadl Flynyddol yr Arweinwyr, a oedd wedi'i threfnu ar gyfer mis Hydref, bellach yn digwydd ym mis Tachwedd. Caiff y rhaglen waith ei diwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

54 DATGANIAD CYFRIFON 2017-18.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Ddatganiad o Gyfrifon i'r Aelodau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018. Yn dilyn ystyriaeth, **CYTUNWYD** -

1. I gymeradwyo a nodi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/2018 (wedi'i atodi yn Atodiad 1) a Llythyrau Cynrychioli cysylltiedig yr Awdurdod (wedi'u hatodi yn Atodiad 2) a'r Gronfa Bensiynau (wedi'u hatodi yn Atodiad 3);
2. I gymeradwyo a nodi safle alldro terfynol y Cyngor, sydd wedi'i archwilio, ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/2018 a lefel y Balansau Cyllid Cyffredinol (paragraff 7.4 o'r adroddiad); ac
3. I nodi ystyriaethau a sylwadau Pwyllgor Archwilio 12 Gorffennaf, yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (paragraffau 10.1 ac 10.2 o'r adroddiad).

TRAFOD ADRODDIAD AR Y CYD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL A CHYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL.

55 COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol adroddiad i'r Aelodau oedd yn nodi manylion am Weithgor y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ei gyfarfod ar 3 Medi mewn perthynas ag adolygiad Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Dywedodd y Cyfarwyddwr bod y Pwyllgor wedi argymhell i'r Cyngor y dylai cynigion y Swyddogion ynglŷn â threfniadau etholiadol y Cyngor fod yn destun cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid cyn iddyn nhw gael eu hystyried ymhellach gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 24 Hydref 2018.

Yn dilyn trafodaethau ynglŷn â'r cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid arfaethedig, a'r posibilrwydd o gynnal pedwerydd achlysur ymgynghori yn ardal Cwm Rhondda Fawr, **CYTUNWYD**:

1. I nodi argymhellion y Swyddogion ynglŷn â'r adolygiad o drefniadau etholiadol y Cyngor gan y Comisiwn Ffiniau, fel sydd wedi'i amlinellu yn Atodiad A;
2. I gydnabod sylwadau a mewnbwn Gweithgor y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a gafodd eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 3 Medi 2018 ac sydd wedi'u nodi yng nghofnodion drafft y cyfarfod yma sydd wedi'u cynnwys yn Atodiad B;
3. Yn unol ag argymhellion Gweithgor y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, bydd cynigion y Swyddogion sydd wedi'u hamlinellu yn Atodiad A yr adroddiad yma yn destun cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid fel sydd wedi'i nodi yn adran 5 yr adroddiad yma; a threfnu pedwerydd achlysur i'w gynnal yn

ardal Cwm Rhondda Fawr.

4. Y caiff adborth o'r gwaith ymgynghori â rhanddeiliaid ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Hydref, cyn y bydd y Cyngor yn cyflwyno unrhyw gynig terfynol i'r Comisiwn Ffiniau erbyn 5pm ar 26 Hydref 2018.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR MATERION CYFATHREBU A PHENNAETH DROS DRO'R GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL

56

NEWID AELODAETH

Yn unol â Chofnod rhif 10 o gyfarfod y Cyngor a gafodd ei gynnal ar 23 Mai 2018, dywedodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol wrth yr Aelodau ei fod wedi cael hysbysiad gan y Grŵp Llafur a'r Grŵp Ceidwadol ynglŷn â newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad a hysbysiad gan y Grŵp Llafur ynglŷn â newid i aelodaeth y Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal â hynny, cafodd manylion eu darparu ynglŷn â newid i Gydbwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, yn unol â chofnod 10(2) o gyfarfod y Cyngor a gafodd ei gynnal ar 23 Mai 2018.

Yn ogystal â'r uchod, nododd y Cyfarwyddwr fod angen addasu aelodaeth Bwrdd Trivallis, a hynny o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol a fydd yn dod i rym o fis Rhagfyr 2018. Bydd nifer yr aelodau yn cwmpo o bedwar i ddau. Nododd y Cyfarwyddwr fod Ysgrifennydd Cwmni'r Bwrdd wedi nodi'r bwriad i gynnal adolygiad llywodraethu ehangach o Fwrdd Trivallis, a fydd, o bosibl, yn effeithio ar yr aelodaeth yn y dyfodol. Caiff y Cyngor wybod am hyn yn ôl yr angen.

CYTUNWYD:

1. I nodi y byddai Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Elliott yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes ar y Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad.
2. I nodi y byddai Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L Hooper yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Diamond ar y Pwyllgor Craffu Cyllid a Chyflawniad.
3. I nodi y byddai Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Elliott yn cael ei enwebu i gymryd lle Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes ar y Pwyllgor Archwilio.
4. I dynnu Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Adams o Gydbwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf, a phenodi aelod newydd sy'n rhan o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cyngor.
5. I nodi mai cynrychiolwyr enwebedig yr Awdurdod ar Fwrdd Trivallis yn y dyfodol fydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Griffiths a chynrychiolydd y swyddogion, sef Mr P Mee, Cyfarwyddwr Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
6. Y dylai gohebiaeth gael ei hanfon at Gyngor Merthyr Tudful sy'n ei

hysbysu am yr aelodaeth newydd yma unwaith y caiff aelod newydd ei enwebu.

7. Y caiff gohebiaeth ei anfon at Trivallis, sy'n rhoi gwybod am gynrychiolwyr enwebedig yr Awdurdod.

57 CEFNOGI GWAITH AELODAU – CYFLEUSTERAU FFÔN AC E-BOST A MYNEDIAD ELECTRONIG AT WYBODAETH.

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol ei adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn eu hysbysu nhw o'r penderfyniad a gafodd ei wneud yng nghyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol ar 23 Gorffennaf 2018 ynglŷn ag argymhelliad yr IRP am gefnogi gwaith Aelodau.

CYTUNWYD:

1. Nodi'r ffordd ymlaen a gytunwyd gan y Pwyllgor y Gwasanaethau Llywodraethol, y dylai pob Aelod Etholedig gael £37 y mis (cyn gostyngiadau treth ac yswiriant gwladol) i gyfrannu at y gost o gael cyswllt band-eang yn eu cartrefi. Bydd hyn yn digwydd am 6 mis nes caiff y cynnig ei adolygu gan y Pwyllgor.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

58 I AIL-BENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU.

Yn unol â'r Rheoliadau, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol fanylion i'r Aelodau ynglŷn â'r cynnig i ail-benodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau am dymor pellach.

CYTUNWYD:

1. Ail-benodi Mr Mel Jehu yn Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd o 18 Hydref 2018 ymlaen.

(Nodwch: Gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Smith y cyfarfod pan gafodd yr eitem yma ei thrafod ac yn ystod y bleidlais. Mae hyn wedi'i nodi yng Nghofnod 47)

59 RHYBUDD O GYNNIG

Cafodd Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, S.Rees Owen, G.Davies, M.Weaver, E.Webster, D.Grehan, H.Fychan, D.Macey, A.Cox, J.Williams, K.Morgan, J.Davies, J.Cullwick, E.Stephens, L.Jones, A.Chapman ac S.Evans ei drafod.

"Mae'r Cyngor hwn, yn rhan o'i gyfrifoldebau cynllunio ar gyfer argyfwng, yn cyflwyno carfan o Wardeiniaid Eira a fydd yn cynorthwyo â gwaith clirio'r eira yn eu cymunedau yn ystod cyfnod o eira trwm. Bydd y wardeiniaid eira wedi cofrestru â'r Cyngor ac yn derbyn hyfforddiant addas a'r cyfarpar sydd ei angen i gyflawni gwaith clirio eira yn eu hardal nhw."

Yn dilyn y drafodaeth, **CYTUNWYD** y byddai'r Rhybudd o Gynnig yn cael ei atgyfeirio at y Pwyllgor Craffu – Cynnal Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymunedau

a Ffyniant i'w ystyried ymhellach.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10 pm

**Cllr S Powderhill
Cadeirydd.**